



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

16.07.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Mae'n anodd credu ein bod ni yn wythnos olaf y tymor a hynny heb achos covid yn yr ysgol! Hoffwn ddechrau'r llythyr hwn gyda **diolch enfawr** i chi fel rhieni a gofalwyr am y gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi inni fel staff yn ystod y flwyddyn hon. Hoffai'r staff a minnau hefyd ddiolch i'r gymuned ehangach a'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth. Mae'r llwyddiannau a gawsom yn dyst i ymdrech pawb i gydweithio. Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff. Ni allwn fod wedi gofyn am staff mwy ymroddedig a chefnogol yn ystod y flwyddyn hon. Diolch yn fawr!

HMS

Ar gyfer mis Medi, mae diwrnodau HMS wedi'u cynllunio ar gyfer dydd Iau 2il a dydd Gwener 3ydd o Fedi. Felly, y diwrnod cyntaf yn ôl i ddisgyblion fydd **dydd Llun 6 Medi**.

Oriau ysgol

Clwb brecwast - Yn agor am **7.50am** - Dim mynediad ar ôl 8.35am

Mae clwyd yr Ysgol yn agor am **8.35am**

Cychwyn Ysgol **8.50am** (gwnewch yn siŵr bod eich plentyn ar y safle erbyn **8.45am**)

Diwedd y dydd

Disgyblion Cyfnod Sylfaen - **Casglwch am 3.05pm** (Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1 a 2)

Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 - **Casglu am 3.20pm** (Blynnyddoedd 3,4,5 a 6)

Byddwn yn parhau i ddilyn yr un cynllun o ddisgyblion yn creu rhesi dosbarth ar yr buarth ac yna bydd yr athro'n galw'r rhiant ymlaen i gasglu ei blentyn gan ddefnyddio'r system unffordd.

Cynllun Gweithredol Ysgol ar gyfer mis Medi

- Cynghorwyd ysgolion i annog rhieni i wisgo masgiau ar yr iard amser casglu a gollwng. Cynghorir rhieni i aros y tu allan i'r adeilad oni bai bod apwyntiad wedi'i drefnu gyda'r ysgol. Os yn bosibl, dylai rhieni geisio cynnal rhywfaint o bellter cymdeithasol o hyd. Ar ddiwedd y dydd, dylai rhieni adael yr iard a'r ardal o amgylch giât yr ysgol cyn gynted â phosibl. Dyma'r ddolen i'r canllawiau gweithredol a roddir i'r ysgol os hoffech ddarllen mwy: <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-o-1-medi-2021-html>
- Ar ddechrau'r dydd - bydd rhieni'n gollwng eu plant wrth giât yr ysgol a bydd disgyblion yn cerdded i'w hystafelloedd dosbarth fel y gwnaethant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod ganddynt amser i olchi â'u dwylo cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau. Ar gyfer rhieni plant Meithrin a Derbyn, rydym yn deall y gallai fod angen i rieni hebrwng eu plant i'r buarth ac i'r dosbarth i gefnogi gyda chyfnod setlo ar ddechrau'r tymor.
- Test Trace and Protect (TTP) fydd y corff sy'n cynghori'r ysgol ar weithdrefnau hunan-ynysu ym mis Medi pe bai achos cadarnhaol yn cael ei nodi. Bydd yn parhau i fod yn wir, pe bai'ch plentyn neu

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354





YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

- unrhyw un yn eich cartref yn arddangos symptomau covid 19 y dylech aros adref a chael eich profi.
- Ni fydd mwy o swigod dosbarth oni bai bod achosion covid yn codi ac efallai y bydd angen ailgyflwyno swigod dros dro i reoli lledaeniad y firws.
 - Bydd amseroedd cinio yn dychwelyd i'r arferol.
 - Bydd y system unffordd yn aros yn yr ysgol.
 - Bydd golchi dwylo yn rheolaidd yn rhan o'r diwrnod ysgol yn ogystal â sicrhau awyru i adeilad yr ysgol a'r ystafelloedd dosbarth.
 - Ni fydd angen ynysu'r llyfrau cyswllt cartref / ysgol

Clwb Gofal

Bydd Clwb Gofal yn ailagor fel arfer ddydd Llun Medi 6ed.

Hwyl fawr blwyddyn 6

Dymuniadau gorau i Flwyddyn 6 wrth iddynt symud i'w hysgol newydd a haf hapus!



Gobeithio y cewch chi i gyd wyliau haf hamddenol a hapus.

Diolch yn fawr!

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

Pennaeth

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354

